# Atodiad C – Cynllun gwella

## Ysbyty:Ysbyty Cymuned Machynlleth

## Ward/adran:Ward Twymyn

## Dyddiad arolygu:  30 Gorffennaf 2019

## ac

## Ysbyty:Ysbyty Coffa Rhyfel Llanidloes

## Ward/adran:Ward Graham Davies

## Dyddiad arolygu:  31 Gorffennaf 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ymgysylltu â'r awdurdod lleol gyda'r nod o sicrhau bod mwy o ddarpariaeth gofal cymdeithasol addas ar gael er mwyn hwyluso'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty yn amserol. | 5.1 Mynediad amserol | Penodwyd arweinydd clinigol ar gyfer gofal heb ei drefnu gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys er mwyn cefnogi llif y cleifion ym mis Gorffennaf 2019. Mae cyswllt dyddiol â Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn cydweithio i | Arweinydd ar gyfer gofal heb ei drefnu | Ar waith |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | hwyluso'r broses o ryddhau cleifion yn amserol a lleihau nifer y cleifion y mae Oedi wrth Drosglwyddo eu Gofal sydd ar y ward ar hyn o bryd.<br><br>Mae'r Rheolwr Arweiniol Gofal heb ei Drefnu yn cydgysylltu â chydweithwyr yn y trydydd sector a'r awdurdod lleol ar lefel strategol gyda'r nod o sicrhau bod mwy o ddarpariaeth gofal cymdeithasol addas ar gael.<br><br>Mae'r Tîm Llif Cleifion yn cydgysylltu â phob ward bob dydd er mwyn trafod trefniadau rhyddhau'r cleifion a chynhelir ymarfer cyfrif gwelyau bob dydd y gwahoddir cydweithwyr yr awdurdod lleol iddo.<br><br>Cynhelir ymarfer cyfrif cleifion y mae Oedi wrth Drosglwyddo eu Gofal ag uwch-reolwyr yn yr awdurdod lleol ddwywaith yr wythnos.<br><br>Mae'r Uwch-nyrs ar gyfer llif cleifion yn mynychu Fforwm y Prif Nyrsys Ward gan ddarparu gwybodaeth i gefnogi'r broses o ryddhau'r cleifion. | | |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiadau | 6.2 Hawliau pobl | Mae polisi a gweithdrefn Diogelu wrth | Rheolwr | 30 Tachwedd |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| galluedd meddyliol amserol yn cael eu cwblhau ar gyfer cleifion y mae angen gwneud cais am drefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid ar eu cyfer a bod yr holl ddogfennaeth ategol yn cael ei chwblhau i safon dderbyniol. | | Amddifadu o Ryddid Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi cael eu datblygu er mwyn cefnogi'r staff rheng flaen, sy'n ymgorffori pob agwedd ar y Broses Diogelu wrth amddifadu o ryddid y dylid ei dilyn. Maent wrthi'n cael eu cadarnhau ar hyn o bryd.<br><br>Mae'r Tîm Diogelu'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu pecyn hyfforddiant newydd ar gyfer Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, a gaiff ei gyflwyno i ddechrau i staff Band 6 a 7 ar y ward, gyda'r nod o'i gyflwyno i holl staff y Wardiau yn 2020.<br><br>Mae'r tîm diogelu yn cyflwyno fersiwn fer o'r cwrs hyfforddiant ar Ddiogelu wrth Amddifadu o Ryddid sydd ar gael i bob ward ledled Powys. Mae'r cwrs yn manylu ar ofynion y broses Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.<br><br>Mae adnodd archwilio'n cael ei ddatblygu a fydd yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd a disgwylir y bydd yn barod erbyn diwedd mis Tachwedd.<br><br>Datblygwyd poster briffio 7 munud ar Ddiogelu wrth Amddifadu o Ryddid i gefnogi'r staff – i'w lansio yn ystod | Gwasanaethau Cymunedol<br><br>Cyfarwyddwr Diogelu Cynorthwyol | 2019<br><br>Mis Mawrth 2020<br><br>Tachwedd 2019<br><br>Tachwedd 2019<br><br>Dydd Gwener 8 Tachwedd |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | wythnos Diogelu genedlaethol ym mis Tachwedd.<br><br>Mae pob Prif Nyrs Ward (yn Wardiau yr Awdurdod Rheoli) i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Rheolwyr Gwasanaethau Cymunedol bob wythnos am nifer y cleifion sy'n destun trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid ar eu wardiau. | | |
| Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod posteri Gweithio i Wella yn cael eu harddangos ar ward Graham Davies. | 6.3 Gwrando a Dysgu o Adborth | Mae taflenni ar gael ar y ward, ac mae posteri wedi cael eu gosod ym mynedfa'r ward i sicrhau eu bod mor weladwy â phosibl. | Uwch-brif Nyrs | Cwblhawyd |
| **Darparu gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn cofnodi maint briwiau pwyso yn rheolaidd ac yn gywir. | 2.2 Atal briwiau pwyso a niwed i feinweoedd | Y Rheolwr Gwasanaeth Clinigol i ychwanegu hyn i agenda cyfarfod yr Uwch-brif Nyrsys er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei wneud a chanfod a oes angen unrhyw hyfforddiant ychwanegol ar y Nyrsys Arbenigol Hyfywedd Meinwe.<br><br>Prif Nyrsys y Ward i ychwanegu hyn i'r agenda fel eitem reolaidd mewn cyfarfodydd Ward.<br><br>Yr adborth i sicrhau y caiff gwaith y staff yn cofnodi maint briwiau pwyso yn | Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol<br><br>Prif Nyrs y Ward<br><br>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Diogelwch ac | 31 Hydref 2019<br><br>31 Hydref 2019 |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | rheolaidd ac yn gywir ei drafod yn y panel craffu ar wlserau pwysau er mwyn rhannu dysgu. | Ansawdd | 31 Hydref 2019 |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiadau o risg y cleifion o gwympo yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. | 2.3 Atal Cwympiadau | Bydd fformat newydd yr asesiadau risg o gwympo yn sicrhau y gwneir hyn drwy gynnwys adran benodol i gofnodi gwaith adolygu.<br><br>Caiff pob asesiad risg o gwympo ei adolygu bob wythnos neu ar ôl achos o gwympo.<br><br>Prif Nyrs y Ward i gynnal archwiliad o gydymffurfiaeth â'r asesiadau risg o gwympo bob mis. | Prif Nyrs y Ward | Hydref 2019<br><br>30 Tachwedd 2019 |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cadw at bolisïau a gweithdrefnau atal a rheoli heintiau bob amser, ac yn rhoi sylw penodol i ddefnyddio cyfarpar diogelu personol yn gywir a golchi eu dwylo yn effeithiol. | 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi | Cynhelir archwiliadau misol o olchi dwylo sy'n cynnwys cyfeiriadau at y defnydd o gyfarpar diogelu personol.<br><br>Prif Nyrs y Ward i atgoffa'r holl staff bod angen cydymffurfio â'r polisi Rheoli Heintiau mewn cyfarfodydd tîm, o dan eitem sefydlog ar yr agenda ar reoli heintiau.<br><br>Mae cynlluniau i drefnu hyfforddiant diweddar gan Uwch-staff ar gyfer Rheoli Heintiau. | Uwch-brif Nyrs | 31 Hydref 2019<br><br>31 Hydref 2019 |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | Cynrychiolydd o'r Ward i fynychu cyfarfod y Nyrsys cyswllt ar Reoli Heintiau. | | |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod siartiau cydbwysedd hylifau yn cael eu cwblhau'n gyson. | 2.5 Maeth a Hydradu | Prif Nyrs y Ward i atgoffa'r holl staff mewn cyfarfodydd tîm fod angen iddynt gwblhau siartiau hylif yn gywir a'u defnyddio'n briodol.<br><br>Prif Nyrs y Ward i gynnal archwiliad o'r gwaith o gwblhau'r siartiau hylif a rhoi adborth i'r staff. | Uwch-brif Nyrs | 31 Hydref 2019<br><br>30 Tachwedd 2019 |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r arfer lle mai dim ond un nyrs gofrestredig sy'n gwirio'r cyffuriau a reolir, er mwyn cydymffurfio â pholisïau lleol a chenedlaethol. | 2.6 Rheoli Meddyginiaethau | Mae polisïau Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn nodi mai'r arfer gorau yw bod dwy nyrs gofrestredig yn rhoi meddyginiaeth ond yn y gymuned gall un wneud hynny, gyda dwy nyrs gofrestredig yn gwirio stoc y meddyginiaethau adeg newid sifft. Darparwyd y ddogfen bolisi.<br><br>Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn ddarparwr gwasanaeth a Arweinir gan Wasanaethau Cymunedol a Gofal Sylfaenol. Yr ardaloedd i gleifion mewnol yw ysbytai cymunedol gyda chymorth meddygol gan feddygon teulu.<br><br>Mae polisi rheoli meddyginiaethau | Rheoli Meddyginiaethau | Cwblhawyd<br><br>31 Rhagfyr 2019<br><br>Cwblhawyd |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru ar hyn o bryd gan y tîm rheoli meddyginiaethau.<br><br>Mae'r tîm rheoli meddyginiaethau yn cynnal archwiliadau rheolaidd o anghysondebau cydymffurfio mewn perthynas â meddyginiaeth a nodir drwy DATIX. | | |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cadw cofnod cywir bob tro y byddant yn gwirio'r cyffuriau a reolir. | | Cynhelir gwiriad dyddiol gan staff y ward.<br><br>Caiff y staff eu hatgoffa am bwysigrwydd cynnal gwiriadau a chadw cofnodion.<br><br>Rhoddir gwybod am anghysondebau drwy Datix a chânt eu huwchgyfeirio. Prif Nyrs y ward i sicrhau bod y mater yn cael ei drafod bob mis mewn cyfarfodydd tîm.<br><br>Mae'r tîm Rheoli Meddyginiaethau wedi ychwanegu'r eitem Cydymffurfio â gwirio stoc cyffuriau a reolir i'r archwiliad misol. | Uwch-brif Nyrs | 31 Hydref 2019<br><br>31 Hydref 2019 |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfryngau tewychu'n cael eu storio'n ddiogel, a llunio polisi ar ddefnyddio a storio cyfryngau tewychu. | | Mae canllawiau Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ar hylifau a dewhawyd ar gael ar wardiau / mewn adrannau sy'n nodi 'dylid cadw tewychyddion allan o | Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol | 31 Hydref 2019 |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | gyrraedd y cleifion hynny y tybir eu bod wedi drysu neu nad ydynt yn gallu defnyddio'r tewychydd yn gywir'.<br><br>Trafodir y canllawiau yng nghyfarfod yr Uwch-brif Nyrsys ar 11 Tachwedd, gyda'r nod o'u rhannu â staff y ward er mwyn sicrhau y nodir y cleifion hynny sydd wedi drysu ac y cynhelir asesiadau risg ar yr unigolyn a'r amgylchedd o'i amgylch.<br><br>Ailddosberthir y rhybudd diogelwch a'r canllawiau i'r wardiau.<br><br>Atgoffir pob ward y dylid cofnodi'r defnydd o dewychydd ar y cynllun gofal hydradu.<br><br>Nodir y risgiau mewn cynllun gofal unigol ar bob ward.<br><br>Bydd tewychydd wedi'i labelu ar gael i'r cleifion â galluedd ar eu locer.<br><br>Cedwir tewychyddion allan o gyrraedd y cleifion sydd wedi drysu mewn ystafell storio dan glo.<br><br>Trafodir hyn yn Fforwm yr Uwch-brif Nyrsys ar 11 Tachwedd er mwyn rhannu | Rheoli Meddyginiaethau/ Therapi Lleferydd ac Iaith | 12 Tachwedd 2019<br><br>Wedi'i gwblhau<br><br>31 Hydref 2019<br><br>31 Hydref 2019<br><br>31 Hydref 2019<br><br>31 Hydref 2019<br><br>11 Tachwedd 2019 |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | dysgu. | | |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn monitro ac yn cofnodi'r tymheredd yn ddyddiol, yn yr ystafell storio meddyginiaethau ac ar gyfer yr oergell feddyginiaeth. | | Prynwyd thermomedr yn syth ar ôl yr ymweliad a chaiff yr oergell ei monitro yn unol â'r polisi.<br><br>Cynhelir gwiriadau tymheredd ystafelloedd bob dydd a chânt eu cofnodi ar daflen gofnodi at ddibenion archwilio. | Uwch-brif Nyrs | Cwblhawyd<br><br>Cwblhawyd |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod adnoddau asesu poen ffurfiol yn cael eu defnyddio ar y ddwy ward. | 3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol | Bwriedir rhoi adnodd Rheoli Poen Cymru Gyfan ar waith yn 2020 fel rhan o brosiect E-ddogfennau.<br><br>Byddwn yn adolygu'r adnodd a ddefnyddir ar y wardiau ym Mhowys er mwyn cytuno ar adnodd dros dro yn Fforwm nesaf y Prif Nyrsys lle y bydd yr holl brif nyrsys yn bresennol, sef 11 Tachwedd 2019. | Pennaeth Nyrsio<br>Mis Tachwedd<br><br>Pennaeth Nyrsio<br>Prif Nyrsys y Ward | 31 Mawrth 2020<br><br>30 Tachwedd 2019 |
| Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob cynllun gofal, o ran ei fformat, yn canolbwyntio ar yr unigolyn. | | Defnyddir cynlluniau gofal craidd ac mae'r fformat yn sicrhau y gellir personoli'r cynllun gofal.<br><br>Prif Nyrs y ward i sicrhau bod y staff wedi personoli'r cynllun gofal er mwyn | Uwch-brif Nyrs<br><br>Uwch-brif Nyrs | 31 Hydref 2019<br><br>31 Hydref |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | adlewyrchu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.<br><br>Y dogfennau i gael eu harchwilio bob chwarter.<br><br>Mae cynlluniau gofal yn profi fersiwn bapur o E-ddogfennaeth sy'n cael ei chyflwyno.<br><br>Mae'r adnodd archwilio dogfennau wedi cael ei ddiweddaru er mwyn ystyried a yw'r cynlluniau gofal wedi cael eu personoli er mwyn diwallu anghenion y cleifion. | Uwch-brif Nyrs | 2019<br><br>30 Tachwedd 2019<br><br>Mis Mawrth 2020<br><br>i'w gwblhau mis Hydref |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion gofal yn cael eu ffeilio'n well ar y ddwy ward, er mwyn sicrhau ei bod yn hawdd dod o hyd i wybodaeth ynddynt. | 3.5 Cadw cofnodion | Mae'r staff yn cael eu hatgoffa i sicrhau bod dogfennaeth nyrsio'n cael ei ffeilio mewn ffolderi nodiadau'r cleifion gyda rhanwyr er mwyn hwyluso'r broses o gael gafael arni/ei darllen/ei chofnodi.<br><br>Caiff hyn ei fonitro drwy archwiliadau chwarterol o nodiadau achos fel rhan o'r cylch archwilio clinigol. | Prif Nyrs y Ward | 31 Hydref 2019 |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod troliau sy'n cynnwys cofnodion y cleifion ar ward Graham | | Cyflwynwyd cais gwaith i gael bysellbad ar ddrws y swyddfa. Bydd y Rheolwr | Prif Nyrs y Ward | 30 Tachwedd 2019 |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Davies dan glo pan na chânt eu defnyddio. | | Gwasanaethau Cymunedol yn monitro hyn drwy adolygiad 1:1 ac adolygiad misol o Gynllun Gweithredu Gwella AGIC.<br><br>Atgoffwyd pob aelod o'r staff am storio gwybodaeth cleifion yn ddiogel. Bydd y Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol yn monitro hyn drwy adolygiad 1:1 ac adolygiad misol o Gynllun Gweithredu Gwella AGIC.<br><br>Mae pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant gorfodol ar lywodraethu gwybodaeth. Mae hyn yn cael ei fonitro dwy gofnodi hyfforddiant gorfodol ar Gofnod Electronig y Staff.<br><br>Mae adnodd archwilio dogfennau yn cofnodi bod nodiadau'n cael eu storio'n ddiogel | | |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y canlyniadau archwiliadau mwyaf cyfredol yn cael eu rhoi ar hysbysfyrddau ar y ddwy ward. | Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd | Hysbysfwrdd – caiff y wybodaeth ddiweddaraf ei rhoi ar fwrdd Gwybod Sut rydym yn ei Wneud | Prif Nyrs y Ward | Hydref 2019 |
| Rhaid i'r staff gael hyfforddiant ar drefniadau | 7.1 Y Gweithlu | Mae'r tîm diogelu'n cefnogi pecyn hyfforddiant ar gyfer Diogelu wrth | Cyfarwyddwr Diogelu | 30 Mawrth |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| diogelu wrth amddifadu o ryddid a'r Ddeddf Iechyd Meddwl ac ymgymryd â phob elfen arall o'r hyfforddiant gorfodol. | | Amddifadu o Ryddid, a gaiff ei gyflwyno i ddechrau i staff Band 6 a 7 ar y ward, gyda'r nod o'i gyflwyno i holl staff y Wardiau yn 2020.<br><br>Mae Polisi a Gweithdrefn Gweithredu Safonol Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid wedi cael eu cymeradwyo er mwyn cefnogi'r staff rheng flaen, sy'n ymgorffori pob agwedd ar y Broses Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid y dylid ei dilyn. Maent wrthi'n cael eu cadarnhau ar hyn o bryd.<br><br>Hyfforddiant ar y Ddeddf Iechyd Meddwl i gael ei ddatblygu yn gorfforaethol ar gyfer y staff nad ydynt yn staff iechyd meddwl).<br><br>Mae hyfforddiant e-ddysgu Lefel 1 a 2 ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol ar gael i'r staff. Gwaith yn mynd rhagddo ar y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol i ychwanegu gofynion hyfforddiant gorfodol ar gyfer Nyrsys Cofrestredig.<br><br>Mae'r staff yn cael eu hatgoffa a'u hannog i wneud eu hyfforddiant gorfodol. | Cynorthwyol<br><br>Pennaeth Addysg Glinigol<br><br>Tîm Diogelu<br><br>Prif Nyrs y Ward | 2020<br><br>Cwblhawyd<br><br>31 Rhagfyr 2019<br><br>30 Tachwedd 2019<br><br>30 Tachwedd 2019<br><br>30 Tachwedd 2019 |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | Datblygwyd poster briffio 7 munud ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol er mwyn cefnogi'r staff – i'w lansio yn ystod yr wythnos Diogelu genedlaethol ym mis Tachwedd. | | |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau pob elfen o'r hyfforddiant gorfodol. | | Caiff hyn ei fonitro drwy adroddiadau misol o Gofnod Electronig y Staff a chaiff ei drafod mewn cyfarfodydd tîm.<br>Mae'r staff yn cael eu hannog yn weithredol gan reolwyr y wardiau i wneud eu hyfforddiant.<br>Mae cyfrifiaduron personol ac ardaloedd tawel ar gael i'r staff er mwyn gwneud hyn. Ystyrir talu'r staff sy'n gweithio'n rhan amser pe byddant am ddod i mewn i wneud yr hyfforddiant pan nad ydynt yn gweithio.<br>Defnyddir diwrnodau Cadw mewn Cysylltiad a dychwelyd yn raddol i gefnogi'r staff wrth gwblhau hyfforddiant gorfodol. | Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol/Uwch-brif Nyrsys | O 31 Hydref 2019 ymlaen |
| Rhaid i ddogfennaeth PADR y staff gael ei chwblhau'n llawn, gan gynnwys adran yr | | Caiff hyn ei fonitro drwy adroddiadau misol o Gofnod Electronig y Staff a | Rheolwr Gwasanaethau | O 31 Hydref 2019 ymlaen |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| adolygiad 90 diwrnod yn benodol. | | chaiff ei drafod mewn cyfarfod arweinwyr y tîm er mwyn sicrhau bod adolygiadau 90 diwrnod yn cael eu cynnal. | Cymunedol/Uwch-brif Nyrsys | |
| Dylai'r ymatebion llai ffafriol gan y staff yn holiadur AGIC gael eu hystyried, yn enwedig y rhai a nodir yn adran Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth yr adroddiad hwn, a'i fod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion a godwyd. | | Roedd y sylwadau'n ymwneud â'r canlynol<br><br>Cynhelir Sesiwn Agored Cwrdd â'r Staff gan uwch-arweinwyr pob ardal leol, ar y cyd ag aelod o dîm rheoli'r Gyfarwyddiaeth ar bob safle bob chwe mis.<br><br>Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o newidiadau i'r Safonau Iechyd a Gofal.<br><br>Bod pob aelod o staff yn cael Adolygiad o Berfformiad a Datblygiad yn flynyddol.<br><br>Bod y rheolwyr yn sicrhau eu bod yn arfer ymagwedd gadarnhaol tuag at iechyd a llesiant y staff y maent yn eu rheoli'n uniongyrchol.<br><br>Bod y staff yn cael eu cynnwys yn y broses gwneud penderfyniadau lle | Cyfarwyddwr Nyrsio | 31 Hydref 2019 |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | bynnag y bo'n bosibl.<br><br>Bod digon o staff i sicrhau bod y staff yn teimlo eu bod yn gallu gwneud eu gwaith yn iawn.<br><br>Bod y sefydliad yn gweithredu'n deg o safbwynt datblygiad gyrfa a dyrchafu, ni waeth beth yw ethnigrwydd, rhywedd, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd neu oedran y staff.<br><br>Caiff canfyddiadau'r arolygiad hwn gan AGIC eu rhannu â holl Brif Nyrsys Ward a Rheolwyr Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>Caiff canfyddiadau'r archwiliad hwn eu profi yn erbyn Adnoddau Mapio Sicrwydd Wardiau cyfredol.<br><br>Eir i'r afael â hyn drwy nifer o weithdrefnau ac adrannau<br><br>Cynrychiolaeth o'r staff, y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, Rheolwyr Gwasanaethau Cymunedol/arweinwyr timau. | | 30 Tachwedd 2019 |

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau):** **Anita Davies**

**Titl swydd:** **Pennaeth Nyrsio**

**Dyddiad:** **28/10/2019**